# Y model atomig

Mae modelau Frayer yn ffordd syml ond effeithiol o ddatblygu dealltwriaeth y dysgwyr o ddarn newydd o eirfa. Byddwch yn gweld beth mae eich dysgwyr yn ei wybod yn barod ac yn adnabod unrhyw gamsyniadau sydd ganddynt. Rhoddir y term allweddol yng nghanol pedwar pedrant; gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r pedrannau yn eu tro.

- **Archwilio:** cysylltwch hyn â chyfalaf gwyddoniaeth a gweld beth mae'r dysgwyr eisoes yn ei ddeall am y term. Gofynnwch i'r dysgwyr ble maent wedi clywed y term o'r blaen, neu beth mae'n gwneud iddynt feddwl amdano
    - Bydd cysylltiad uniongyrchol rhwng sut mae'r dysgwyr yn ymateb a'u cyfalaf gwyddoniaeth. Gallwch ddysgu rhagor am gyfalaf gwyddoniaeth yn: rsc.li/40FAMLP
- **Dadansoddi:** edrychwch ar rannau cyfansawdd y gair i ddeall ei ystyr yn fanylach. Arweiniwch eich dosbarth drwy'r pedrant hwn drwy gyfeirio at yr etymoleg sydd yn adran nodiadau'r sleidiau i ddysgwyr (ac a adlewyrchir yn sleidiau'r athro/y sleidiau atebion).
    - Pan nad oes modd rhannu term yn rhannau cyfansawdd taclus, enw'r pedrant hwn yw '**Beth rydym yn ei wybod am** … '. Mae'n rhestru rhai pwyntiau i hwyluso trafodaeth ac mae hefyd yn cynnwys etymoleg.
- **Egluro**: cyflwynwch y diffiniad. Mae dwy ran i'r adran hon. Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr ddiffinio'r term eu hunain ac yna gofynnwch iddynt gopïo'r diffiniad o'r rhestr o dermau allweddol.
- **Cyfnerthu**: gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio eu gwybodaeth am y term drwy ateb cwestiwn.

## Sut mae defnyddio modelau Frayer

Argraffwch sleidiau model Frayer ar gyfer y termau allweddol rydych chi am eu harchwilio a'u dosbarthu. Gofynnwch i'r dysgwyr blygu ar hyd y llinellau du a chanolbwyntio ar gwblhau un pedrant ar y tro.

- Mae'r llinellau ym mhedrant tri (**egluro**) yn gwahanu cynigion y dysgwyr ar ddiffinio oddi wrth y diffiniadau a ddarperir yn y rhestr o dermau allweddol. Gallant gopïo'r diffiniadau o'r rhestr ar y model ar ôl iddynt roi cynnig ar y diffiniad.
- Yn y fersiwn wedi'i sgaffaldio, mae'r llinellau ychwanegol ym mhedrant dau (**dadansoddi**) yn gwahanu'r drafodaeth dan arweiniad yr athro oddi wrth waith y dysgwyr eu hunain.

Gofynnwch i'r dysgwyr agor y papur ar ôl iddynt gwblhau eu model ac ystyried faint maent yn ei wybod am y term erbyn hyn.

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

### Ffyrdd eraill o ddefnyddio hyn

- Argraffwch yr adnodd a'i ddefnyddio fel gweithgaredd 'meddwl, paru, rhannu'.
- Defnyddiwch fyrddau gwyn bach i hwyluso'r drafodaeth yn y dosbarth.

## Awgrymiadau i addasu modelau Frayer

- Tynnwch sylw at ragddodiaid, ôl-ddodiaid a chyfieithiadau cyffredin. Gall hyn fod yn ddefnyddiol i'r dysgwyr.
- Cysylltwch y termau â geiriau tebyg i helpu'r dysgwyr i awgrymu ystyron posibl.
- Yn y pedrant **egluro**, rhowch ddiagramau, enghreifftiau perthnasol ac enghreifftiau amherthnasol.
- Ychwanegwch gwestiwn estyn at y pedrant **cyfnerthu** i ddyfnhau'r ddealltwriaeth.

## Sgaffaldio

Mae'r adnoddau hyn ar gael mewn fformat heb ei sgaffaldio ac wedi'i sgaffaldio. I rai dysgwyr, mae'r pedrant **archwilio** yn arbennig o heriol, felly rhowch ragor o amser, cymorth a chyfarwyddiadau penodol iddynt er mwyn defnyddio'r modelau hyn. Peidiwch â phoeni os nad yw'n gweithio'r tro cyntaf.

Mae'r fformat wedi'i sgaffaldio yn rhoi'r canlynol i'r dysgwyr:

- Awgrymiadau ar gyfer y pedrant **archwilio.**
- Blwch penodol yn yr adran **dadansoddi** ar gyfer cysylltu rhannau cyfansawdd geiriau.
- Dechrau brawddegau yn yr adran **egluro** i gefnogi dysgwyr sy'n rhoi cynnig ar lunio eu diffiniad eu hunain.
- Rhagor o gymorth yn yr adran **cyfnerthu**.

Darllenwch ragor am fodelau Frayer a'u defnyddio: rsc.li/4jpOnhW a rsc.li/42paFJL

© 2025 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol